



# Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012

2012 dccc 2

*Cyflwyniad*

## **1 Trosolwg**

Mae'r Ddeddf hon –

- (a) yn diwygio gweithdrefnau ar gyfer gwneud is-ddeddfau yng Nghymru, gan gynnwys tynnu ymaith ofyniad am gadarnhau is-ddeddfau gan Weinidogion Cymru;
- (b) yn galluogi i is-ddeddfau penodol gael eu gorfodi drwy hysbysiadau cosbau penodedig;
- (c) yn ei gwneud hi'n ofynnol i unrhyw awdurdodau sy'n gwneud is-ddeddfau roi sylw i unrhyw ganllawiau ar weithdrefn a roddir gan Weinidogion Cymru;
- (d) yn ailddatgan i Gymru pŵer cyffredinol i wneud is-ddeddfau.